Atodiad 3

**FFURFLEN ASESU EFFAITH AR Y GYMRAEG**

Diben y ffurflen Asesu Effaith ar y Gymraeg yw galluogi Cyngor Rhondda Cynon Taf i ystyried egwyddorion a gofynion Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 er mwyn cydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

| | |
|---|---|
| **Cam 1 - Casglu Gwybodaeth**<br><br>**NODER:** Wrth i chi gwblhau'r asesiad yma, bydd gofyn i chi gyflwyno **tystiolaeth i ategu'ch sylwadau**. Gweler Canllawiau Asesu Effaith ar y Gymraeg i gael rhagor o wybodaeth am ffynonellau data. | |
| **Enw'r Cynnig:** | Strategaeth Bwyd Cynaliadwy Rhondda Cynon Taf: Taith Bwyd |
| **Adran** | Datblygu Cymunedol |
| **Cyfarwyddwr Gwasanaeth** | Louise Davies |
| **Swyddog sy'n llenwi'r Asesiad** | Rhiannon Edwards |
| **E-bost** | rhiannon.edwards1@rctcbc.gov.uk |
| **Rhif ffôn** | 07385401835 |
| **Disgrifiad cryno** | Datblygu a ffurfioli Strategaeth Bwyd Cynaliadwy ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. |
| **Dyddiad** | Chwefror 2025 |
| **Nodwch ar bwy mae'r cynnig yma'n effeithio. (Defnyddwyr gwasanaethau, gweithwyr, cymuned ehangach)** | Gweithwyr, y Gymuned Ehangach |

RHONDDA CYNON TAF

| | |
|---|---|
| **Beth yw nodau'r polisi, a sut mae'r rhain yn berthnasol i'r Gymraeg?** | Mae datblygu a ffurfioli Strategaeth Bwyd Cynaliadwy gyntaf Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn creu cysylltiadau cryfach ar draws cymunedau lleol, economi bwyd lleol ffyniannus a mynd i'r afael ag effaith amgylcheddol y system fwyd. Er nad yw'r strategaeth yn ymwneud yn uniongyrchol â'r Gymraeg, mae'r strategaeth yn cydnabod dylanwad y Gymraeg a threftadaeth Cymru ar yr amgylchedd bwyd yn Rhondda Cynon Taf ac yn ceisio hyrwyddo'r rôl y bydd Diwylliant ac Iaith Bwyd Cymru yn ei chwarae mewn unrhyw fentrau a gweithgareddau cymunedol sy'n gysylltiedig â'r strategaeth yma. Yn ogystal, bydd unrhyw bolisïau a chynigion sy'n deillio o'r strategaeth lefel uwch yma hefyd yn destun eu Hasesiad Effaith ar y Gymraeg penodol eu hunain. |
| **Pwy fydd yn elwa? / Oes modd i'r polisi effeithio ar grwpiau Cymraeg? Os felly, rhestrwch nhw yma.** | Unrhyw unigolyn sy'n byw, yn gweithio neu'n ymweld â'r Fwrdeistref. Nod y strategaeth yw creu system fwyd decach a mwy cyfartal sy'n dathlu bwyd lleol. Mae'r strategaeth wedi'i chynllunio i fod o fudd i bawb sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â Rhondda Cynon Taf, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg, gan ei bod yn anelu at ddathlu nid yn unig bwyd cynaliadwy ond busnesau a chynhyrchwyr lleol, treftadaeth Cymru a diwylliant bwyd Cymru. |
| **Proffil ieithyddol cyfredol yr ardal(oedd) ddaearyddol dan sylw** | Mae ffigurau Cyfrifiad 2021 ynghylch y Gymraeg yn dangos bod canran siaradwyr Cymraeg ledled Cymru wedi gostwng i 17.8%. Serch hynny, gwelodd Rhondda Cynon Taf gynnydd bychan gyda chanran poblogaeth y Fwrdeistref Sirol sy'n gallu siarad Cymraeg yn codi o 12.3% i 12.4%. Mae data'n dangos bod nifer y siaradwyr Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf wedi cynyddu o 27,779 i 28,556, sef cynnydd o 2.8%. Yn wir, Rhondda Cynon Taf oedd un o bedwar Awdurdod Lleol yng Nghymru yn unig i weld cynnydd yng nghanran ei siaradwyr Cymraeg. Y lleill oedd Caerdydd, Bro Morgannwg a Merthyr Tudful. Mae pob un o'r awdurdodau lleol yma'n Fwrdeistrefi sirol cyfagos. Efallai bod hynny'n dangos bod ein rhanbarth ni'n gweld rhai tueddiadau cadarnhaol o ran cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg, ac y gallai'r cynnydd yma arwain at gynnydd yn y galw am wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Wrth i ddata pellach, manylach, o'r Cyfrifiad ar gyfer Rhondda Cynon Taf ddod i'r fei, (e.e. data Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is), bydd angen i ni ystyried pa effaith y gallai ei chael ar y gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu. |
| **Data neu ymchwil perthnasol arall** | |

RHONDDA CYNON TAF

**Cam 2 – Asesu Effaith**

Yma mae angen i chi ystyried yr effaith, y dystiolaeth ac unrhyw gamau rydych chi'n eu cymryd i wella. Mae hyn er mwyn sicrhau nad yw'r cyfleoedd i bobl sy'n dewis byw eu bywydau a manteisio ar wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg yn israddol i'r hyn sydd ar gael i'r rhai sy'n dewis gwneud hynny yn Saesneg, yn unol â gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Sylwch fod asesiad effaith ar wahân ar gyfer cydraddoldeb a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol y mae'n rhaid eu cwblhau hefyd ar gyfer cynigion polisi.

Cofiwch y gallai effeithiau cadarnhaol i rai grwpiau fod yn niweidiol i eraill - hyd yn oed ymhlith grwpiau Cymraeg. Ystyriwch yr effeithiau ar wahanol grwpiau. Er enghraifft, mae'n bosibl bod cynnig o fudd i ddysgwyr Cymraeg, ond nid i siaradwyr Cymraeg.

**Mae Asesiadau blaenorol o'r Effaith ar y Gymraeg i'w gweld ar Inform trwy glicio yma.**

**A fydd y cynnig arfaethedig yn effeithio ar unrhyw un neu bob un o'r canlynol?**

| | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?** | **Disgrifiwch pam y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol/negyddol neu niwtral ar y Gymraeg.** | **Pa dystiolaeth sydd gyda chi i ategu'r farn hon?** | **Pa gam(au) mae modd eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?** |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg**<br><br>e.e. staff, trigolion ac ymwelwyr<br><br>Hawliau siaradwyr Cymraeg a dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â'r Cyngor ac i staff ddefnyddio'r Gymraeg yn y Gwaith. | Cadarnhaol | Mae Strategaeth Bwyd Cynaliadwy Rhondda Cynon Taf yn manylu ar gamau gweithredu sy'n ymwneud â chreu mudiad bwyd da yn Rhondda Cynon Taf, sef cymryd rhan weithredol mewn achlysuron a gweithgareddau sy'n ymwneud â bwyd. Caiff pob gweithgaredd sy'n ymwneud â bwyd ei hysbysebu'n ddwyieithog, a chaiff dewisiadau | Tudalennau cyfredol ar dudalen we Bwyd Cynaliadwy Rhondda Cynon Taf<br><br>Gwahoddiadau i achlysuron blaenorol<br><br>Ar hyn o bryd dim ond un swyddog sydd wedi'i neilltuo i weithio ar y | Sicrhau bod dewisiadau iaith yn cael eu nodi cyn pob achlysur a chyflwyniad a phan fydd achlysuron yn cael eu cynnal, byddwn yn mynd ati i gynnig cyfleoedd i'r cyhoedd siarad Cymraeg.<br><br>Dod o hyd i siaradwyr Cymraeg o fewn y bartneriaeth i fod yn |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | iaith eu nodi cyn yr achlysur er mwyn sicrhau bod Siaradwyr Cymraeg yn cael y cyfle i sgwrsio yn Gymraeg os ydyn nhw'n dymuno.<br><br>Mae'r holl wybodaeth gyhoeddus sydd ar dudalen we Bwyd Cynaliadwy Rhondda Cynon Taf ar gael yn ddwyieithog i drigolion.<br><br>Bydd swyddogion y Cyngor sy'n cwblhau gwaith sy'n gysylltiedig â'r strategaeth a'r cynllun gweithredu yn cael eu hannog yn frwd i ddatblygu sgiliau Cymraeg a chael y gallu i sgwrsio mewn sgyrsiau symlf, ar y lleiaf, yn Gymraeg.<br><br>Yn rhan o weithrediad y strategaeth bydd cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg wrth ryngweithio â gwaith y bartneriaeth, a hynny o ran siarad a darllen. | strategaeth a deilliannau'r strategaeth. Mae'r swyddog yma eisoes yn cwblhau Lefel 1 yn y Gymraeg drwy'r Cyngor, a bydd y swyddog yn cael ei annog i wella'i lefel o ran y Gymraeg. Bydd unrhyw staff eraill, yn y dyfodol, sy'n gysylltiedig â rhoi'r strategaeth ar waith, a deilliannau'r strategaeth, yn cael eu hannog i wneud yr un peth.<br><br>Mae enghreifftiau o gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg yng ngwaith ehangach y Bartneriaeth yn cynnwys bod Aelod o Grŵp Llywio Partneriaeth Bwyd Rhondda Cynon Taf, trwy grant gan y garfan Datblygu'r Gymuned, wedi cynhyrchu llyfr coginio dwyieithog o ryseitiau lleol rhwng y cenedlaethau, gan arddangos diwylliant bwyd Cymreig modern. | bresennol mewn achlysuron a/neu gyfieithydd os oes angen.<br><br>Cefnogi ac annog Sefydliadau Cymunedol i gynnal gweithgareddau yn ymwneud â bwyd yn y Gymraeg. |

| **Cam 2 – Asesu Effaith**<br><br>**A fydd y cynnig arfaethedig yn effeithio ar unrhyw un neu bob un o'r canlynol?** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?** | **Disgrifiwch pam y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol/negyddol neu niwtral ar y Gymraeg.** | **Pa dystiolaeth sydd gyda chi i ategu'r farn hon?** | **Pa gam(au) mae modd eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?** |
| **Niferoedd a / neu ganrannau'r siaradwyr Cymraeg**<br>e.e. Cyfleoedd Addysg / Astudio Cyfrwng Cymraeg. Cysylltiadau â Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru / Strategaeth y Gymraeg Pum Mlynedd Cyngor Rhondda Cynon Taf | Niwtral | Pwrpas Strategaeth Bwyd Rhondda Cynon Taf yw creu system fwyd fwy cyfartal a chynaliadwy i bawb yn Rhondda Cynon Taf. Ni fydd y strategaeth yn effeithio'n uniongyrchol ar niferoedd y siaradwyr Cymraeg ar draws y fwrdeistref. | Gweithredoedd a gweledigaeth y strategaeth. | Er nad oes gan y strategaeth a'r cynllun gweithredu sy'n cyd-fynd â hi gamau gweithredu penodol sy'n ymwneud â chynyddu canrannau siaradwyr Cymraeg, mae gofyn i bob gweithgaredd sy'n ymwneud â bwyd sy'n cael ei gefnogi'n ariannol gan y Cyngor ystyried sut y byddan nhw'n sicrhau bod modd i siaradwyr Cymraeg sgwrsio yn Gymraeg a dysgu yn Gymraeg yn ystod eu gweithgareddau. |
| **Cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg**<br>e.e. statws, defnyddio Gwasanaethau Cymraeg, defnyddio'r Gymraeg yn rhan o fywyd beunyddiol yn y gwaith ac yn y gymuned | Niwtral | Er nad yw Strategaeth Bwyd Cynaliadwy Rhondda Cynon Taf yn cynnwys camau gweithredu uniongyrchol sy'n ymwneud â hyrwyddo'r Gymraeg mae Partneriaeth Bwyd Rhondda Cynon Taf wedi ymrwymo i | Mae'r Bartneriaeth yn trefnu achlysuron Busnes Bwyd gyda Cywain, rhan o Mentera, sy'n cefnogi cynhyrchwyr Bwyd a Diod Cymru ledled Cymru. Ym mis Chwefror 2025, fe wnaethom ni gynnal Brecwast | Bydd pob gweithgaredd sy'n ymwneud â'r blaenoriaethau allweddol yn y strategaeth yn gofyn am ddewis iaith ymlaen llaw. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mynd ati'n weithredol i annog a hyrwyddo defnydd o'n gwasanaethau Cymraeg i weld cynnydd yn y galw dros amser | | sicrhau bod unrhyw aelod o'r rhwydwaith neu breswylydd sy'n cymryd rhan mewn achlysuron a gweithgareddau sy'n ymwneud â'r strategaeth yn cael y cyfle i ymgysylltu â phrosiectau sy'n ymwneud â bwyd yn Gymraeg os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny.<br><br>Bydd cyfleoedd i hybu busnesau a chynhyrchwyr bwyd Cymraeg eu hiaith a'u hannog i gynyddu amlygrwydd y Gymraeg drwy eu gweithgareddau hyrwyddo a'u deunydd pacio.<br><br>Caiff yr holl ohebiaeth a'r achlysuron a gweithgareddau sydd wedi'u hysbysebu eu darparu yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg. | Busnes RhCT. Roedd yr holl ddeunydd hyrwyddo yn ddwyieithog, roedd y prif hwylusydd yn annog pawb a oedd yn bresennol i ddefnyddio'r Gymraeg os oedden nhw'n dymuno wrth sgwrsio. Bydd cyfleoedd pellach yn cael eu darparu ar gyfer achlysuron a gynhelir yn Gymraeg.<br><br>Mae achos busnes a gafodd ei lunio gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn nodi bod 62% o siopwyr o'r farn ei bod yn bwysig cael cynnyrch Cymreig ar y fwydlen mewn bwytai. Ymhellach, nododd fod defnydd o'r Gymraeg yn cyfoethogi'r brand a gwerth nwyddau a gwasanaethau yn llygad y cyhoedd. | Er nad oes gan y strategaeth a'r cynllun gweithredu sy'n cyd-fynd â hi gamau gweithredu penodol yn ymwneud â chynyddu canrannau siaradwyr Cymraeg, mae gofyn i grantiau sy'n ymwneud â bwyd sy'n cael eu rhoi i grwpiau cymunedol ystyried sut y bydd prosiectau sy'n ymwneud â bwyd a ariennir gan y Cyngor yn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chynnig a'i hyrwyddo yn eu gweithgareddau.<br><br>Sicrhau bod busnesau a chynhyrchwyr bwyd yn gwybod ble mae modd iddyn nhw fynd i'w helpu i gael cymorth i ddefnyddio'u sylfaen cwsmeriaid, ac ymgysylltu â nhw, gan ddefnyddio'r Gymraeg, hynny yw, cyfeirio at Helo Blod ac ati. |

RHONDDA CYNON TAF

| **Cam 2 – Asesu Effaith**<br><br>**A fydd y cynnig arfaethedig yn effeithio ar unrhyw un neu bob un o'r canlynol?** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?** | **Disgrifiwch pam y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol/negyddol neu niwtral ar y Gymraeg.** | **Pa dystiolaeth sydd gyda chi i ategu'r farn hon?** | **Pa gam(au) mae modd eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?** |
| **Cydymffurfio â Safonau Statudol y Gymraeg**<br>e.e.<br>cynyddu neu leihau gallu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Ystyried hawliau siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â'r Cyngor ac i staff ddefnyddio'r Gymraeg yn y Gwaith. | Niwtral | Bydd y strategaeth yn cydymffurfio â Safonau Statudol y Gymraeg a Strategaeth Hybu'r Gymraeg y Cyngor wrth ei datblygu a'i chyhoeddi. Er enghraifft, yn achos achlysuron, os yw o leiaf 10% o'r unigolion sy'n cael eu gwahodd i achlysur wedi dewis defnyddio'r Gymraeg, bydd cyfieithydd ar y pryd yn cael ei ddarparu, a bydd unrhyw gyhoeddusrwydd neu hysbysebion ar gyfer achlysuron yn ddwyieithog. | Mae datblygiad y strategaeth a'r ymgysylltu ar y strategaeth wedi rhoi cyfle i dderbyn ymatebion drwy gyfrwng y Gymraeg; bydd y strategaeth yn cael ei llunio'n ddwyieithog.<br><br>Cafodd dewisiadau iaith eu nodi cyn yr achlysuron ymgysylltu i ddylunio'r strategaeth ar y cyd gyda'r gymuned. Cafodd sylwadau agoriadol eu darparu yn Gymraeg gan aelod rhugl o Grŵp Llywio Partneriaeth Bwyd RhCT. | Mae ymrwymiad i'r camau gweithredu sydd yn y Strategaeth, a'r achlysuron cysylltiedig sy'n cael eu cynnal, i gynnig y cyfle bob amser i wrando a sgwrsio yn Gymraeg os bydd gofyn gan y sawl sy'n bresennol. Caiff yr holl ddogfennaeth ffurfiol ei gyfieithu.<br><br>Ym mhob cyfarfod neu achlysur sy'n ymwneud â'r strategaeth, bydd yr holl arwyddion, cyhoeddiadau, holiaduron, cyflwyniadau PowerPoint ar gael yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn cael ei harddangos yn gyntaf. |

RHONDDA CYNON TAF

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Mae blaenoriaeth 5 y strategaeth yn ymwneud â newidiadau ym maes caffael i ddefnyddio cyflenwyr mor lleol a chynaliadwy ag sy'n bosibl. Cyn belled ag y bo'n ymarferol ac yn bosibl, caffael gan fusnesau newydd a phresennol sy'n hyrwyddo'r Gymraeg. Er enghraifft, mae Castell Howell, y cyfanwerthwr bwyd mwyaf yng Nghymru, yn darparu'r bwyd ar gyfer llawer o'r lotiau ym maes caffael. Mae Castell Howell yn hyrwyddo'r Gymraeg, diwylliant Cymru a bwyd Cymru. | | |
| **Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.** | Niwtral | Mae Partneriaeth Bwyd RhCT, sy'n cael ei gydlynu gan Swyddog o'r Cyngor, yn sicrhau ei bod yn cydymffurfio â Safonau Statudol y Gymraeg a Strategaeth Hybu'r Gymraeg y Cyngor ym mhob un o'i meysydd, gan gynnwys wrth ddatblygu | Caiff pob cyfathrebiad cyhoeddus ei gynnig yn ddwyieithog.<br>Bydd gwefan Partneriaeth Bwyd Rhondda Cynon Taf ar gael yn y Gymraeg ac yn Saesneg.<br>Er nad oes gan gydgysylltiad y Bartneriaeth Bwyd unrhyw aelodau o staff | Mae ymrwymiad i'r camau gweithredu yn y Strategaeth, ac i sicrhau bod rôl y Gymraeg yn ein treftadaeth fwyd yn cael ei deall a'i dathlu wrth gyflawni'r rhain. |

RHONDDA CYNON TAF

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Strategaeth Bwyd Rhondda Cynon Taf. | sy'n siarad Cymraeg ar hyn o bryd, mae mesurau a chynlluniau ar waith er mwyn delio ag unrhyw geisiadau iaith Gymraeg a ddaw i law. | |

**<u>Cam 3 – Gwella'r cynnig</u>**

Ar ôl rhestru camau gweithredu yn adran 2 a allai liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol – nodwch isod pa rai y byddwch chi'n eu cynnwys yn y cynnig polisi a phwy fydd yn gyfrifol amdanyn nhw.

Ystyriwch hefyd a yw'r cynnig yn angenrheidiol? A fyddai modd bodloni'r galw heb unrhyw ddatblygiadau newydd? Gallai darpariaeth arall gael ei defnyddio? Ble dylai'r ddarpariaeth fod?

| Beth ydych chi'n mynd i'w wneud? | Pryd ydych chi'n mynd i'w wneud? | Pwy sy'n gyfrifol? |
|---|---|---|
| 1. Bydd swyddog(ion) penodol sy'n cwblhau gwaith ar y strategaeth yn parhau i ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg i sicrhau bod trigolion ac aelodau'r rhwydwaith yn cael y cyfle i sgwrsio yn Gymraeg am gamau gweithredu a deilliannau Strategaeth Bwyd Cynaliadwy Rhondda Cynon Taf.<br>2. Sicrhau bod dewisiadau yn cael eu nodi cyn pob achlysur a chyflwyniad, a phan fydd achlysuron yn cael eu cynnal byddwn ni'n mynd ati i gynnig cyfleoedd i'r cyhoedd siarad Cymraeg.<br>3. Dod o hyd i siaradwyr Cymraeg o fewn y bartneriaeth i fod yn bresennol mewn achlysuron a/neu gyfieithydd os oes angen.<br>4. Sicrhau bod busnesau a chynhyrchwyr bwyd yn gwybod ble mae modd iddyn nhw fynd i'w helpu i gael cymorth i ddefnyddio'u sylfaen cwsmeriaid, ac ymgysylltu â nhw, gan ddefnyddio'r Gymraeg drwy greu pecyn cymorth i'w anfon at fusnesau sy'n cymryd rhan. | 1. Swyddog penodedig yn cwblhau Lefel 1 Cymraeg ar hyn o bryd – wedi dechrau ym mis Medi ac i'w gwblhau yn yr haf<br>2. Cyn unrhyw achlysur<br>3. Yn ôl y gofyn<br>4. Cyn ymgysylltu â busnesau | 1. Cydlynydd Bwyd Cynaliadwy<br>2. Cydlynydd Bwyd Cynaliadwy<br>3. Cydlynydd Bwyd Cynaliadwy<br>4. Cydlynydd Bwyd Cynaliadwy |

| | | |
|---|---|---|
| 5. Sicrhau bod yr holl ddogfennaeth ffurfiol, boed yn gyfathrebiadau cyhoeddus, cyflwyniadau PowerPoint, Blogiau ac ati yn cael eu hanfon yn ddwyieithog.<br><br>6. Dathlu rôl y Gymraeg yn ein diwylliant a hanes bwyd.<br><br>7. Bydd grantiau sy'n ymwneud â bwyd sy'n cael eu cynnig i'r gymuned gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr ystyried sut mae modd iddyn nhw ddefnyddio a chynnig gwasanaethau yn Gymraeg.<br><br>8. Cefnogi sefydliadau cymunedol i drefnu gweithgareddau sy'n ymwneud â bwyd yn y Gymraeg trwy gyfeirio at gymorth. | 5. Cyn iddo gael ei ledaenu<br><br>6. Drwy gydol gweithrediad y strategaeth<br>7. Pan fydd gwaith papur grant yn cael ei lunio<br><br>8. Pan fydd grantiau bwyd/ gweithgaredd cymunedol yn cael eu rhyddhau | 5. Cydlynydd Bwyd Cynaliadwy<br><br>6. Cydlynydd Bwyd Cynaliadwy a Rhwydwaith Partneriaeth Bwyd Rhondda Cynon Taf llawn<br><br>7. Cydlynydd Bwyd Cynaliadwy a Rheolwr Rhaglen a Grantiau Carfan Datblygu'r Gymuned Rhondda Cynon Taf<br><br>8. Cydlynydd Bwyd Cynaliadwy |

Os yw ffyrdd o leihau'r effaith wedi cael eu nodi ond dydyn nhw ddim yn bosibl eu rhoi ar waith, esboniwch pam. Rhowch ddigon o fanylion am ddata neu ymchwil sydd wedi arwain at eich rhesymu.

| **Beth gafodd ei nodi?** | **Pam nad yw'n bosibl?** |
|---|---|
| | |
| | |

**Cam 4 – Adolygu**

Ar gyfer pob cynnig polisi, p’un a yw’n Benderfyniad Allweddol Arwyddocaol ai peidio, mae’n ofynnol ichi anfon yr asesiad yma ymlaen at yr Uned Gwasanaethau Cymraeg – SwyddogIaith@rctcbc.gov.uk a'r garfan Ymgynghori ac Ymgysylltu – ymgynghori@rctcbc.gov.uk yn y lle cyntaf i gael rhywfaint o arweiniad ac adborth cychwynnol.

Yn rhan o'r Broses Asesu Effaith ar y Gymraeg, Cydraddoldeb a Dyletswydd Economaidd Gymdeithasol, dylai pob cynnig sy'n diwallu'r diffiniad o Benderfyniad Allweddol Arwyddocaol gael eu cyflwyno gerbron y Panel Adolygu Swyddogion. Mae swyddogion o bob rhan o Wasanaethau'r Cyngor yn rhan o'r panel yma ac mae'n gweithredu fel ffrind beirniadol cyn i'ch adroddiad gael ei gwblhau a'i gyhoeddi ar gyfer cymeradwyaeth gan y Cabinet / Uwch Reolwyr y Cyngor.

Os yw'r cynnig yma'n cael ei ystyried yn Benderfyniad Allweddol Strategol, anfonwch eich asesiad effaith sydd wedi'i gwblhau (Camau 1>6), ynghyd â chynnig/adroddiad polisi a'r adroddiad ymgynghori i'r cyfeiriad e-bost BusnesyCyngor@rctcbc.gov.uk fel bod modd trefnu Panel Adolygu i drafod eich cynnig. Darllenwch ein dogfen ganllaw i gael rhagor o wybodaeth am beth yw Penderfyniad Allweddol Sylweddol.

Mae'n bwysig cadw cofnod o'r broses hon fel y gallwn ddangos sut rydyn ni wedi ystyried ac ymgorffori ystyriaethau cynaliadwy o ran y Gymraeg lle bynnag y bo modd. Sicrhewch eich bod chi'n diweddaru'r adrannau perthnasol isod ar y cyd â'r adrannau perthnasol.

| Sylwadau'r Uned Gwasanaethau Cymraeg | Dyddiad Ystyried y Cynnig | Disgrifiad byr o unrhyw welliannau a wnaed yn dilyn adborth gan yr Uned Gwasanaethau Cymraeg. |
|---|---|---|
| Hoffai'r Uned Gwasanaethau Cymraeg ddiolch i swyddogion am gymryd amser i ystyried effeithiau posibl y strategaeth yma ar y Gymraeg yn y gweithlu ac allan yn y gymuned. Mae’n gadarnhaol gweld y bydd y strategaeth yma'n sicrhau bod unrhyw weithgareddau a dogfennau sy’n ymwneud â’r strategaeth yn cadw at Safonau’r Gymraeg. Mae hefyd yn wych gweld bod ymrwymiad i wella lefel sgiliau Cymraeg staff ac i gipio dewis iaith y trigolion a fydd yn bresennol mewn unrhyw gyfarfodydd neu achlysuron sy'n ymwneud â'r strategaeth.<br><br>O ran gwella a chryfhau’r asesiad, mae angen inni sicrhau bod cynnig rhagweithiol o’r Gymraeg yn cael ei wneud i drigolion ar bob cyfle sydd ar gael er mwyn iddyn nhw | 26/02/2024 | Mae'r holl sylwadau gan yr Uned Gwasanaethau Cymraeg wedi'u hymgorffori yn yr asesiad ac mae'r Uned Gwasanaethau Cymraeg wedi'u cymeradwyo. |

RHONDDA CYNON TAF

| | | |
|---|---|---|
| gael dewis clir a rhydd o ran eu dewis iaith. Ymhellach, rydyn ni'n teimlo y dylid gwneud rhagor gyda'r strategaeth fel bod mentrau Cymraeg penodol yn cael eu cynnal sy'n cefnogi busnesau Cymraeg eu hiaith yn uniongyrchol. Hefyd, o ran unrhyw fusnesau/cyflenwyr sydd wedi'u caffael yn rhan o'r strategaeth, dylen nhw hefyd gadw at y Safonau'r Gymraeg gan y byddan nhw'n darparu gwasanaeth ar ran y Cyngor. Byddai rhagor o ddata neu ymchwil am ddylanwad y Gymraeg yn y sector hefyd yn fuddiol o ran ychwanegu rhagor o fanylion a dangos mwy o ymwybyddiaeth.<br><br>Ar ôl adolygiad: | | |
| **Sylwadau Swyddogion y Panel Adolygu** | **Dyddiad Ystyried y Cynnig** | **Disgrifiad byr o unrhyw addasiadau a wnaed yn dilyn ystyriaethau'r Swyddogion y Panel Adolygu** |
| | | |
| **Sylwadau'r Adran Ymgynghori** | **Dyddiad Ystyried y Cynnig** | **Disgrifiad byr o unrhyw addasiadau a wnaed yn dilyn yr ymgynghoriad** |
| | | |

| |
|---|
| **<u>Cam 5 – Monitro, Gwerthuso ac Adolygu</u>**<br><br>Sut byddwch chi'n monitro effaith ac effeithiolrwydd y cynnig, a gyda phwy? |
| |

Mae hon yn strategaeth 5 mlynedd, a'r Grŵp Llywio a Rhwydwaith Partneriaeth Bwyd Rhondda Cynon Taf fydd yn ysgogi o ran rhoi hyn ar waith. Bydd monitro'r ymgysylltu a chynnydd o ran y Strategaeth yn digwydd yn unol â'r hyn sydd wedi'i nodi yn y strwythur isod. Bydd y Grŵp Llywio yn gyfrifol am gasglu cofnodion cynnydd a'u monitro yn unol â phob cyflawniad sydd wedi'i nodi yn y Cynllun Gweithredu. Bydd adrodd ynghylch cynnydd o ran cyflawni'r Strategaeth yn digwydd gan ddilyn yr amserlen yma; yn chwarterol i Rwydwaith Partneriaeth Bwyd Rhondda Cynon Taf, ac yn flynyddol i'r Grŵp Llywio Cymorth Cymunedol, a Chabinet a Phwyllgorau Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (fel sy'n berthnasol), yn ogystal â'r hyn sy'n ofynnol gan gyllidwyr allanol. Bydd y strategaeth yn cael ei hadolygu gan Grŵp Llywio a Rhwydwaith Partneriaeth Bwyd Rhondda Cynon Taf ddwywaith y flwyddyn.

**<u>Cam 6 – Crynodeb o'r Effeithiau gan y Cynnig</u>**

Darparwch grynodeb o'r asesiad effaith isod. Yn y crynodeb, rhaid cynnwys rhai o'r prif effeithiau cadarnhaol a negyddol ynghyd â throsolwg o'r camau gweithredu ers yr asesiad effaith a gafodd eu cymryd i gyfrannu at effeithiau mwy cadarnhaol yn well. Dylai'r crynodeb yma gael ei gynnwys yn adran Ystyriaethau o'r Gymraeg yn nhempled adroddiad Uwch Reolwyr y Cyngor/y Cabinet. Dydy hi ddim yn addas ysgrifennu 'gweler yr adroddiad llawn yn Atodiad x' yn unig yng nghorff yr adroddiad. Rhaid cyhoeddi'r asesiad effaith ochr yn ochr â'r adroddiad.

Strategaeth Bwyd Cynaliadwy Rhondda Cynon Taf: Mae Taith Bwyd wedi'i gynllunio i fod o fudd i bawb sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â Rhondda Cynon Taf. Ei weledigaeth yw creu system fwyd decach a mwy cyfartal, sy'n dathlu bwyd lleol a lle mae modd i bawb gael mynediad at fwyd fforddiadwy, maethlon a chynaliadwy.

Prif ganfyddiadau'r asesiad effaith yma yw y bydd y cynnig yn cael effeithiau niwtral yn bennaf ar y Gymraeg ond gyda meysydd lle mae modd dathlu treftadaeth a diwylliant Cymru a'r Gymraeg a chyfleoedd i ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid bwyd yn Gymraeg.

RHONDDA CYNON TAF

| **<u>Cam 7 – Cymeradwyo</u>** | | | |
|---|---|---|---|
| **Enw'r Swyddog sy'n cwblhau'r Asesiad Effaith ar y Gymraeg** | Rhiannon Edwards | **Enw Cyfarwyddwr y Gwasanaeth:** | Louise Davies |
| **Swydd** | Cydlynydd Bwyd Cynaliadwy | **Rydw i'n argymell bod y cynnig: (Tynnwch sylw at y penderfyniad)** | **Yn cael ei roi ar waith heb unrhyw addasiadau** |
| | | | **Yn cael ei roi ar waith gan ystyried y camau lliniaru sydd wedi'u hamlinellu** |
| | | | **Yn cael ei wrthod oherwydd effeithiau negyddol anghymesur ar y Gymraeg** |
| **Llofnod** | | **Llofnod y Cyfarwyddwr Gwasanaeth** | |
| **Dyddiad** | | **Dyddiad** | |